

Meini Prawf

Cronfa Cymorth Adfer COVID 19 ar gyfer Grwpiau Cymunedol BAME yng Nghymru

Mae corff cynyddol o ddata, gan gynnwys data gan ONS yn dangos bod y pandemig coronafeirws wedi effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n grwpiau Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig (BAME). Mae sefydliadau a arweinir gan BAME wedi chwarae rhan ganolog o hyd o ran sicrhau bod cymorth brys hanfodol yn cyrraedd y rheini o'r cymunedau hyn sydd wedi'u taro'n galed. Crëwyd y gronfa hon i gefnogi'r sefydliadau hynny sy'n cael eu harwain gan deuluoedd a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) ledled Cymru i wella ar ôl y pandemig coronafeirws.

*Noder ein bod yn diffinio sefydliad a arweinir gan BAME o dan y telerau canlynol a gyhoeddwyd gan y Gynghrair Cyllidwyr Cydraddoldeb Hiliol:

- Cenhadaeth a phwrpas y sefydliad yw bod o fudd i gymunedau BAME.
- Mae'r rhan fwyaf o'r arweinyddiaeth (h.y. o leiaf hanner yr uwch dîm a bwrdd yr Ymddiriedolwyr) yn dod o'r gymuned(au) BAME y mae'n eu gwasanaethu

Grantiau sydd ar gael

Mae grantiau rhwng £2,000 a £5,000 ar gael i'w dyfarnu i sefydliadau cymunedol BAME* sydd ag incwm oddeutu £25,000 yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf a gofnodwyd.

Mae grantiau ar gael i gefnogi costau rhedeg sefydliad, i gyfrannu tuag at gostau prosiect a/neu i dalu costau penodol.

Pwy all ymgeisio?

Mae'r gronfa'n agored i grwpiau cymunedol yng Nghymru, a all ddisgrifio effaith y pandemig ar eu cymuned a dweud wrthym beth y byddant yn ei wneud i helpu eu pobl yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein sydd ar gael drwy ein gwefan.

DS. Byddwn yn cynnal sesiynau galw heibio i gefnogi grwpiau i ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ac i gwblhau eu ffurflenni cais. [Archebwch slot yma.](#)

Sylwer:

- Rhaid gwario grantiau'n llawn o fewn blwyddyn i dderbyn ein llythyr cynnig.
- Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau a ysgwyddwyd cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, ac mae'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi wedi'u dychwelyd
- Nid oes grantiau ar gael tuag at godi arian yn gyffredinol nac i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill